# Nadolig Plentyn yng Nghymru

## Enghreifftiau o Ddyfyniadau Eira:

“Mae Rhagfyr yn wyn fel Lapland yn fy nghof, er nad oedd ceirw.”

“Ac fe ganent eu newyddion dros dref mewn rhwymau, dros ewyn-wedi-rhewi y bryniau powdr a hufen iâ, dros glecian y môr.”

“A’r postman oer, gyda rhosyn ar ei drwyn-botwm, yn fferru ei ffordd ar hyd lethr-hambwrdd gloyw’r bryn oer, llathraidd.”

## Paragraff ar gyfer marcio testun:

Yn ogystal â chael ei ysgwyd o fwcedi gwyngalch i lawr o’r awyr, fe heidiau allan o’r ddaear, fe nofiai, fe ddihangai o freichiau a dwylo a chyrff y coed; fe dyfai’r eira dros nos ar deau’r tai fel tadcu o fwsogl pur, gan fân-batrymu’r waliau fel eiddew a disgyn ar y postman a agorai’r llidiart, fel storm fud, ddi-deimlad o gardiau Nadolig, gwyn, toredig.